
MODIWL 4
CYFLWYNIADAU CLOI YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwyniad a chrynodeb

1. Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn ei datganiad agoriadol, roedd y broses o ddosbarthu brechlyn COVID-19 yng Nghymru yn llwyddiant ar y cyfan, ond mae bob amser yn bosibl gwneud yn well ac mae gwersi i'w dysgu bob amser. Nododd y cyflwyniadau ysgrifenedig hyn brif bwyntiau'r broses o ddosbarthu'r brechlyn yng Nghymru, mynd i'r afael â'r cwestiynau a godwyd yn y dystiolaeth lafar ac adlewyrchu ar y gwersi y gellir eu dysgu o'r dystiolaeth a glywyd gan yr Ymchwiliad.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu deg datganiad tyst i'r Ymchwiliad a wnaeth osod y penderfyniadau a wnaed ganddo yn fanwl mewn perthynas â'r broses o gyflwyno brechlyn yng Nghymru a materion eraill sy'n cael eu hystyried yn y modiwl hwn (darparu therapiwteg yng Nghymru ac ymgysylltu ag ymchwil therapiwteg)¹.
3. Nid yw'r cyflwyniadau ysgrifenedig hyn yn crynhoi nac yn ailddatgan y dystiolaeth helaeth yn natganiadau Llywodraeth Cymru am fod y ffocws ar y pwyntiau a wnaed yn y dystiolaeth lafar. Serch hynny, gofynnir i'r Ymchwiliad ystyried y cyd-destun a'r dystiolaeth ychwanegol yn y datganiadau hynny.
4. Ni chaiff sfferau gwahanol cymhwysedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu cwmpasu gan y modiwl hwn eu hailadrodd yma. I grynhoi'n fras, Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r brechlyn yng Nghymru, ar ôl cytuno mai Llywodraeth y DU ddylai arwain y broses o gaffael y brechlyn.

¹ Dr Gillian Richardson, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol/Y Prif Berchennog Cyfrifol [INQ000501330], Vaughan Gething, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [INQ000493687], Claire Rowlands, Y Prif Berchennog Cyfrifol o 4/21 [INQ000474558], Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru [INQ000474446], Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [INQ000499055], Andrew Evans, Y Prif Swyddog Fferyllol [INQ000493334, INQ000474566], Mark Drakeford, Y Prif Weinidog [INQ000474420], Heather Payne, Cadeirydd Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19 [INQ000507523], Eluned Morgan, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [INQ000474509]

Yn ogystal, Llywodraeth y DU hefyd a arweiniodd yr ymchwiliad i therapiwteg a'r broses o'i chaffael, gan mai rôl Llywodraeth Cymru oedd cefnogi mynediad at therapiwteg a'i ddosbarthu'n effeithiol ac yn amserol. Gwnaed hyn yn bennaf drwy ymgysylltiad Mr Evans² â'r Tasglu Therapiwteg, y Tasglu Meddyginiaethau Gwrthfeirrol a'r Tasglu Meddyginiaethau Gwrthfeirrol a Therapiwteg ac â Phanel Cyngori Therapiwteg COVID-19 y DU (**"UK-CTAP"**).³ Llywodraeth y DU sy'n gwneud y penderfyniadau o dan y Ddeddf Taliadau Niwed Trwy Frechiad (**"y Ddeddf"**) ac nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl wrth weinyddu'r Cynllun Taliadau Niwed Trwy Frechiad (**"y Cynllun Taliadau"**). Er y caiff y dystiolaeth bwerus y mae'r Ymchwiliad wedi'i chlywed am yr angen i ailwampio'r Ddeddf a'r Cynllun Taliadau yn llwyr ei chydabod, nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud newidiadau o'r fath.

Dosbarthu'r brechlyn yng Nghymru

5. Ar y cyfan, roedd y broses o ddosbarthu'r brechlyn yng Nghymru yn llwyddiant a chyflawnwyd nod y rhaglen, sef brechu cymaint â phosibl, cyn gynted â phosibl, a hynny mewn ffordd ddiogel, gan wastraffu cyn lleied o frechlynnau â phosibl.⁴
6. Gellir gweld y mesur o lwyddiant o'r ffigurau cryno isod:
 - a. Erbyn 19 Ionawr 2021, roedd Cymru yn brechu bron i 1,000 o breswylwyr cartrefi gofal bob dydd [INQ000505449];
 - b. Erbyn diwedd mis Ionawr 2021, roedd y brechlyn wedi'i gynnig i holl breswylwyr hŷn cartrefi gofal a'r holl aelodau o staff. Erbyn dydd Gwener 12 Chwefror 2021, roedd pawb yn y 4 grŵp blaenoriaeth cyntaf⁵ wedi cael cynnig y brechlyn ac erbyn 18 Chwefror roedd 82.9% o breswylwyr cartrefi gofal ac 85.1% o weithwyr cartrefi gofal wedi cael y brechlyn [INQ000227442]. Erbyn 2 Mawrth 2021, roedd dros 85% o'r rhai yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf wedi cael eu dos cyntaf ac roedd nifer y brechiadau dos cyntaf a roddwyd dros 90% mewn rhai grwpiau gan gynnwys y rhai dros 80 oed [INQ000388302];

² Prif Swyddog Fferyllol Cymru.

³ INQ000493334, para. 26.

⁴ Richardson 28 Ionawr 2025 66/14-16.

⁵(1) preswylwyr mewn cartref gofal ar gyfer oedolion hŷn a'u gofalwyr; (2) pawb dros 80 oed neu'n hŷn a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen; (3) pawb dros 75 oed neu'n hŷn (4) pawb dros 70 oed neu'n hŷn ac unigolion hynod agored i niwed yn glinigol.

- c. Erbyn 5 Mehefin 2021, roedd 75% o boblogaeth oedolion y DU wedi cael dos cyntaf o'r brechlyn tra oedd 86% o boblogaeth Cymru wedi cael y brechlyn.⁶
7. Wrth gwrs, mae'n rhaid gwneud dewisiadau wrth ddosbarthu'r brechlyn. Dewisiadau anodd, sy'n cael eu hysbysu gan gyflenwad a logisteg, ac na fyddant yn cael eu derbyn yn dda ym mhobman. Cyflwynir y ddadl bod y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi cael ystyriaeth ofalus, wedi'u hadolygu'n gyson ac yn hynod effeithiol ar y cyfan.
8. Roedd gwahaniaethau o ran logisteg a dulliau'r pedair gwlad ac roedd manteision ac anfanteision i ddulliau pob un. Symudodd Cymru yn gyflym i frechu'r grwpiau blaenoriaeth, gan symud i lawr y rhestr flaenoriaeth yn gyflymach, wrth i'r gwledydd datganoledig eraill flaenoriaethu cwrpas yn y grwpiau blaenoriaeth unigol. Nodir nad oes unrhyw beth lawer yn well yn y naill senario na'r llall.
9. Caiff y dull yng Nghymru o ddosbarthu brechlyn Pfizer ym mis Rhagfyr 2020 ei nodi'n fanwl yn natganiadau tyst Andrew Evans (Y Prif Swyddog Fferyllol) a Claire Rowlands (Y Prif Berchennog Cyfrifol o fis Ebrill 2021)⁷. Maent yn gosod yr elfennau ymarferol o gyflwyno'r brechlyn a gofynion cychwynnol yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ("MHRA"), gan gynnwys y gofyniad (hyd at 30 Rhagfyr 2020) y dylai awdurdodau sy'n gweinyddu'r brechlyn hwn sicrhau bod ganddynt ddarpariaeth ar gyfer dau ddos i bob claf sy'n cael ei drin⁸.
10. Caiff anfanteision cyflwyno a defnyddio brechlyn Pfizer yn ddiogel eu gosod (y tymheredd yr oedd rhaid iddo gael ei storio, y cyfyngiadau ar ôl iddo gael ei wanedu, nifer yr adegau y gellid ei gludo). Mae Mr Evans yn nodi materion penodol yng Nghymru yng nghamau cyntaf cyflwyno'r brechlyn a oedd yn golygu mai dim ond uchafswm o 20 o hambyrddau o'r brechlyn yr oedd modd eu dosbarthu i uchafswm o 20 o leoliadau.
11. Ym mharagraff 183, mae Mr Evans yn casglu:

⁶Gweler para. 261 o ddatganiad Dr Richardson, sy'n cyfeirio at y rhaglen More or Less, gan osod y ffigurau hyn – [INQ000501330]. Gweler hefyd INQ000354707 sy'n cyfeirio at y Prif Weinidog yn gofyn y cwestiwn pam roedd Cymru 'gymaint' o flaen Lloegr wrth roi'r dosau cyntaf ac ond ychydig y tu ôl wrth roi'r ail ddosau.

⁷ INQ000474566, paragraffau 180 – 186 ac INQ000474558, paragraffau 182 - 216

⁸ INQ000474558, paragraff 187

“183. In my opinion, it was most appropriate to deploy the Pfizer BioNTech vaccine to vaccination centres where large numbers of people (in multiples of 975) could be vaccinated every four to five days. The considerations and advice on the most appropriate deployment model for the vaccine are summarised in MA/VG/4049/20 (exhibited at EVANS/092 - INQ000361639) to which I contributed in November 2020”.

12. At hynny, mae datganiad Mr Evans yn egluro mai ystyriaeth bwysig arall oedd dyddiad rhoi awdurdodiad disgwylidig i frechlyn Astra Zeneca, yr oedd y Tasglu Brechu a'r MHRA wedi cadarnhau ei fod yn llawer mwy addas i'w ddosbarthu mewn canolfannau brechu llai, mewn gofal sylfaenol ac yng nghartrefi pobl ac mewn cartrefi gofal. Y dyddiad cyflwyno arfaethedig i ddechrau oedd 21 Rhagfyr 2020 ac mae Mr Evans yn nodi pe bai oedi, byddem yn gwybod mwy am gludo brechlyn Pfizer. Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn erbyn cefndir y cyngor hwn i beidio â dosbarthu brechlyn Pfizer i gartrefi gofal yn ystod pedair wythnos gyntaf cyflwyno'r brechlyn gyda dyddiad adolygu wedi'i bennu ar 21 Rhagfyr 2020. Ym mharagraff 186, mae Mrs Evans yn casglu:

“186. It was and remains my opinion, which I would have expressed in discussions about the issue, that deployment to care homes and smaller settings was considerably less efficient in terms of staff resource and time, could lead to loss of vaccine effectiveness (given what we knew about stability and the other challenges), and would result in high levels of waste. My recollection is that these views were shared by the other Chief Pharmaceutical Officers”.

13. Roedd pryderon diogelwch hefyd ynghylch dosbarthiad cychwynnol brechlyn Pfizer a oedd yn cefnogi'r penderfyniad i ddechrau brechu mewn canolfannau lle roedd sylw meddygol wrth law yn syth. Mae hyn yn glir o gyfnewid Dr Richardson gyda'r Prif Berchnogion Cyfrifol eraill pan oeddent yn disgrifio dosbarthiad cychwynnol brechlyn Pfizer:

*“[09/12/2020, 16:12:13] Gillian Richardson: Please may I ask do the events of last 24 hours materially affect care homes plan? Naresh, are you taking defibs to care homes? or just anaphylaxis pack. Many thanks, Gill”.*⁹

14. Fel y nodir yn natganiad Ms Rowlands¹⁰, gwahoddwyd staff cartrefi gofal i gael brechlyn mewn canolfannau brechu yn ystod y cyfnod cychwynnol felly

⁹ [INQ000477804_001].

¹⁰ INQ000474558, paragraff 186

dechreuodd y grŵp hwn gael ei frechu ym mis Rhagfyr 2020, gan arwain at lefelau uchel o weithwyr cartrefi gofal yng Nghymru yn cael eu brechu¹¹.

15. Er gwaethaf yr amheuan ynghylch dosbarthiad cychwynnol brechlyn Pfizer, cychwynnodd Llywodraeth Cymru beilot cartrefi gofal a ddechreuodd ar 16 Rhagfyr 2020 (wythnos ar ôl i'r brechlyn cyntaf gael ei roi) mewn un bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).¹² Nod y peilot oedd gweld cyfyngiadau logistaidd brechlyn Pfizer a'r materion diogelwch y gellid mynd i'r afael â nhw'n effeithiol, er mwyn gallu cyflwyno brechlyn Pfizer i gartrefi gofal. Yn dilyn y peilot, cafodd rhai preswylwyr cartrefi gofal eu brechu â brechlyn Pfizer ond dechreuodd rhai preswylwyr cartrefi gofal gael eu brechu mewn niferoedd uchel yng Nghymru ar ôl i frechlyn AstraZeneca ddod ar gael ar 4 Ionawr 2021 (gweler paragraff 6a uchod – bron i 1,000 o breswylwyr cartrefi gofal y dydd ar 19 Ionawr 2021).
16. Ni wnaeth Cymru ddal cyflenwadau o'r brechlyn yn ôl ar unrhyw adeg. Yn wir, fel y nodwyd ym mharagraffau 260 a 261 yn natganiad Dr Richardson, cyflymodd Cymru'r defnydd o gyflenwadau¹³.
17. Aeth y Prif Swyddog Fferyllol i'r afael â'r camsyniad hwn, yn seiliedig ar sylwadau'r Prif Weinidog ar y pryd.

*“The Welsh Government is not holding back any Pfizer vaccine. All our health boards are receiving doses of Pfizer from the central stores as quickly as they can use it. Plans are in place to fully utilise all currently held Pfizer vaccine by the end of the week commencing 1 February. “The Pfizer vaccine must be stored at ultra-low temperatures – at -70c. There are two special centres where the vaccine is stored at this temperature in Wales. Once removed from cold storage it must be used within five days.” Every dose wasted is a vaccine which cannot be given to someone in Wales. We are proud that less than 1% of the vaccines have not been used, way below the wastage rates that might be expected with this vaccine given its shelf life, storage and distribution challenges.” “Every day in Wales, we are speeding up the vaccination programme. Thousands more people are receiving their first dose of the Covid vaccine and more clinics are opening. “By mid-February, all frontline health and care workers, everyone living and working in care homes and everyone over 70 will have been offered a vaccine”.*¹⁴

Rhwyddineb cael gafael ar y brechlyn

¹¹ Erbyn 26 Ionawr 2021, roedd dros 74% o staff cartrefi gofal wedi cael eu dos cyntaf [\[INQ000492886\]](#).

¹² Dechrau cynllun peilot i gyflwyno brechlyn COVID-19 i gartrefi gofal | LLYW.CYMRU.

¹³ [\[INQ000501330_xx\]](#).

¹⁴ [\[INQ000492819_14\]](#).

18. Dechreuodd y broses gychwynnol o gyflwyno'r brechlyn ar 8 Rhagfyr 2020 gydag un ganolfan brechu torfol ym mhob ardal bwrdd iechyd (mae saith bwrdd iechyd yng Nghymru). Dyma oedd y ffordd fwyaf diogel ac effeithiol o ymdrin â brechlyn Pfizer yn y camau cyntaf.
19. Pan gyhoeddwyd Strategaeth Frechu Cymru ar ddechrau Ionawr 2021, roedd niferoedd y canolfannau brechu a'r mathau o ganolfannau brechu eisoes wedi tyfu; i 14 i ddechrau ac yn y pen draw, 22 o ganolfannau, gyda mwy wedi'u cynllunio yn yr wythnosau dilynol.¹⁵
20. Wedi hynny, cynyddodd mynediad yn gyflym ac erbyn 2 Mawrth 2021, roedd 492 o leoliadau ledled Cymru yn cael eu defnyddio, gan gynnwys 36 o ganolfannau brechu torfol; 377 o leoliadau meddygon teulu 35 o ysbytai a 37 o dimau symudol.¹⁶ Erbyn 4 Mai 2021, roedd brechiadau'n cael eu rhoi mewn 516 o leoliadau ledled Cymru – 56 o ganolfannau brechu torfol; 361 o leoliadau meddygon teulu; 14 o fferyllfeydd; 40 o ysbytai; ac roedd 43 o dimau symudol ar waith¹⁷.

Brechu Teg

21. Bu'r cwestiwn ynghylch anghydraddoldebau iechyd, economaidd-gymdeithasol ac eraill yn bryder polisi sylfaenol o fewn Llywodraethau olynol Cymru er dechrau datganoli yn 1999.
22. Roedd y ffocws hwnnw'n golygu bod dealltwriaeth gynnar Llywodraeth Cymru o COVID-19 wedi'i lywio gan yr wybodaeth fod pob brigiad eang o glefydau yn fwy tebygol o gynhyrchu effeithiau niweidiol anghymesur ar y rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol neu'n dioddef o gyflwr iechyd a oedd eisoes yn bodoli.
23. Roedd gwaith hirsefydlog Llywodraeth Cymru gyda grwpiau cymunedol yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig. Fel y dywedodd Dr Richardson mewn tystiolaeth *“we tended to use our trusted community leaders and networks, our*

¹⁵ [INQ000410079_xxx].

¹⁶ [INQ000388302_003].

¹⁷ [INQ000386948](#)

existing framework such as, you know, our disability forums, our black and ethnic minority engagement groups in Welsh Government. And we had very good relationships on our stakeholder forum".¹⁸ Serch hynny, roedd anghyfartaledd yn parhau yn y defnydd o'r brechlyn yng Nghymru.

24. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ddata gwyliadwriaeth rheolaidd gan lechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y defnydd o'r brechlyn ymhlith grwpiau gwahanol (Diweddariad cydraddoldeb).¹⁹ Roedd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu i ba raddau yr oedd angen gwneud gwaith pellach i gyrraedd grwpiau penodol.
25. Sefydlwyd Pwyllgor Brechu Teg Cymru ym mis Mawrth 2021, ac roedd ei effaith a'i ddylanwad yn cynyddu wrth i'r pandemig esblygu. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a sefydliadau trydydd sector, yn ogystal ag arbenigwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG yng Nghymru i ddeall y rhwystrau i dderbyn brechiadau COVID-19 mewn grwpiau ar yr ymylon a gweithio i godi'r rhwystrau hynny. Mae'n bwysig nodi, fel y nododd Dr Richardson yn ei thystiolaeth, er i'r Pwyllgor Brechu Teg gael ei sefydlu ym mis Mawrth 2021, bu Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â chynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau dan anfantais a sefydliadau trydydd sector ers mis Mehefin 2020 pan sefydlwyd rhaglen frechu COVID-19: *"We also had a stakeholder forum which was basically, initially, part of the board. So right up from June 2020, we did have third sector and patient group representatives helping us in the planning and design of our programme"* ²⁰.
26. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Brechu Teg ym mis Mehefin 2021 i sicrhau bod pawb yng Nghymru a oedd yn gymwys i gael brechiad COVID-19 yn cael mynediad teg a chyfle teg i gael eu brechiad, drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau i dderbyn a oedd yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau o'r boblogaeth nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.
27. Disgrifiodd y Strategaeth Brechu Teg²¹ yr angen i gymryd camau gweithredu mewn perthynas â grwpiau nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn tri dimensiwn cydgysylltiedig: pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

¹⁸ Richardson 28 Ionawr 2025 87/17-21.

¹⁹ Gweler, er enghraifft, **INQ000401431** ac **INQ000401592**.

²⁰ Richardson 28 Ionawr 2025 70/12-16.

²¹ INQ000182538

a phobl anabl; y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n byw mewn cymunedau gyda lefelau uchel o amddifadedd neu allgáu cymdeithasol a'r rhai mewn grwpiau ar yr ymylon neu grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol fel ceiswyr lloches neu ffoaduriaid, pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd, pobl sydd ynghlwm â'r system gyfiawnder, cleientiaid iechyd meddwl a phobl o gymunedau Teithwyr nad ydynt yn cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd traddodiadol yn rheolaidd²². Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrandao'n ofalus ar grwpiau o Gyfranogwyr Craidd a gafodd eu cynrychioli yn yr Ymchwiliad a bydd yn adolygu ei ddull o ymdrin â'r strategaeth frechu bresennol a'i mynediad at ofal iechyd yng ngoleuni tystiolaeth gymhellol tystion.

28. Rhoddodd Llywodraeth Cymru fesurau amrywiol ar waith i sicrhau hygrychedd y brechlyn i'r cymunedau hynny ac annog y cymunedau i'w derbyn. Roedd y mesurau hynny'n cynnwys penodi gweithwyr allgymorth ac ymgysylltu ym mhob bwrdd iechyd lleol i gefnogi ymgysylltiad ac eiriolaeth yn ymwneud â'r rhaglen frechu, a'r defnydd o 'hyrwyddwyr cymunedol' neu 'leisiau dibynadwy' yn cynnwys arweinwyr ffydd, arweinwyr cymunedol, ffigurau chwaraeon a diwylliannol, gweithwyr iechyd proffesiynol, academyddion a chymheiriaid grwpiau cymwys / petrus ynghylch y brechlyn mewn ystod o gymunedau. Yn ogystal â'r Pwyllgor Brechu Teg, sefydlwyd gweithgor "ni fynychwyd" hefyd er mwyn targedu'r mater o'r nifer sy'n derbyn brechlynnau a grwpiau anodd eu cyrraedd yn benodol.

29. Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau penodol gyda'r bwriad o dargedu'r cymunedau anos eu cyrraedd hynny neu'r rhai a oedd yn betrus ynghylch y brechlyn, gan gynnwys bord gron ar frechu ar-lein i alluogi cynrychiolwyr o sefydliadau ffydd amlddiwylliannol, sefydliadau cymunedol a sefydliadau busnes ym mhob rhan o Gymru i ofyn cwestiynau i banel o arbenigwyr a chlywed ganddynt.

Cydweithrediad rhwng y pedair gwlad

30. Gweithiodd y pedair gwlad yn agos gyda'i gilydd i gyflwyno'r brechlyn ym mhob rhan o'r DU, ar lefel swyddogion²³ a lefel gweinidogion.²⁴ Yn ôl unrhyw safon,

²² [INQ000182538_0003].

²³ Gweler Grieve 28 Ionawr 2025 27/20-25 28/1-13; [Lawson 27 Ionawr 2025 177/12-14](#); [Chada 28 Ionawr 2025 115/10-19](#); [Richardson 28 Ionawr 2025 76/22-25 77/1-7](#)

²⁴ [Zahawi 27 Ionawr 2025 92/23-25 93/1-18](#)

roedd y gweithio rhwng y pedair gwlad yn llwyddiant ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried i'w chydberthynas â Llywodraeth y DU fod “*ar ei gorau*” mewn perthynas â'r mater brechlynnau, a gwnaed y pwynt hwn gan gwnsler Llywodraeth yr Alban.²⁵

31. Dau fater a gyflwynir sy'n codi i'w hystyried yng nghyd-destun gwaith y pedair gwlad yw dyrannu brechlynnau ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol ac ystyried newid i strwythurau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (“JCVI”).

Dyrannu brechlynnau yn y pedair gwlad

32. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr Ymchwiliad i ystyried y sail y caiff y cyflenwad o frechlynnau ei rannu rhwng y pedair gwlad arni. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei ystyried yng nghanol pandemig, ond mae'r cwestiwn yn haeddu rhagor o ystyriaeth nawr bod amser i wneud hynny.

33. Rhaid cydnabod na chaiff ei ystyried yn bryder o bwys gan y llywodraethau datganoledig yn yr Alban²⁶ a Gogledd Iwerddon²⁷ ond dywedodd Derek Grieve (Uwch-swyddog Cyfrifol, Llywodraeth yr Alban) “*If there was time, if we had the time to do full population-level modelling and base our supply forecasts on that, then that would have been a preferable model*”.²⁸ Yn ôl Llywodraeth Cymru, nawr bod amser, dylid ystyried yn benodol defnyddio ei hystadegwyr yn well. Ni fyddai'r dadansoddiad hwnnw o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn unrhyw frechlyn yng Nghymru yn y dyfodol gan y byddai'n dibynnu ar ba garfannau oedd yn cael blaenoriaeth.²⁹

34. Creodd y defnydd o fformiwla Barnett y potensial am brinder yn y cyflenwad o frechlynnau yng Nghymru yn ystod camau cynnar cyflwyno'r brechlyn, am fod gan Gymru gyfran anghymesur fwy o bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed yn glinigol, a oedd yn rhan fawr o'r grwpiau blaenoriaeth cychwynnol a'r carfannau yr oedd angen iddynt gael y brechlyn yn gyntaf³⁰.

²⁵ Drysdale 15 Ionawr 2025 12/7-9.

²⁶ Grieve 28 Ionawr 2025 23/7-25 24/1-14.

²⁷ Chada 28 Ionawr 2025 113/22-25 - 115/1-3.

²⁸ Grieve 28 Ionawr 2025 23/7-9 .

²⁹ Richardson 28 Ionawr 2025 76/3-12.

³⁰ INQ000474566, paragraff 237; Richardson 28 Ionawr 2025 75/2-15.

35. Llwyddwyd i osgoi prinder yn y cyflenwad yng Nghymru. Un ffactor mawr wrth gyflawni hyn oedd osgoi gwastraffu brechlynnau, gan fod y brechwyr wedi canfod sut i echdynnu chwe dos fesul ffiol o frechlyn Pfizer, yn hytrach na'r pump a fwriadwyd yn wreiddiol, a gwneud hynny wrth raddfa.
36. Ni ddylai'r llwyddiant hwn dynnu sylw oddi wrth yr angen i ystyried tegwch a phriodoldeb fformiwla Barnett wrth benderfynu ar ba gyfran o stoc brechlynnau'r DU a roddir i'r boblogaeth gan nad yw'n ystyried maint perthynol y boblogaeth sy'n wynebu risg yn y gwledydd gwahanol. Cyflwynir y ddadl y gallai ac y dylai brechlynnau'r dyfodol gael eu dyrannu yn ôl angen lle y bo'n bosibl, a hynny yn seiliedig ar faint gwirioneddol y boblogaeth sy'n wynebu risg.

Llywodraethiant y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI)

37. Mae strwythurau llywodraethu'r llywodraethau datganoledig a'u cyfranogiad yn y JCVI yn haeddu cael eu hystyried gan yr Ymchwiliad. Esblygodd eu rhan yn ystod y pandemig ac fel y mae tystiolaeth tystion Llywodraeth Cymru yn egluro, roedd y cydberthnasau'n gweithio ac roeddent yn effeithiol. Gellid eu gwella ymhellach er mwyn adlewyrchu realiti gofal iechyd datganoledig. Esboniodd Derek Grieve, Uwch-swyddog Cyfrifol Llywodraeth yr Alban mewn tystiolaeth lafar fod y JCVI yn rhoi adroddiadau i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yna mae'r adran honno yn rhoi gwybod i Weinidogion Iechyd y gwledydd datganoledig. Mae'r system hon hefyd yn dylanwadu ar ba bryd y cyhoeddir cyngor JCVI i'r cyhoedd a beth sy'n cael ei roi yn y Llyfr Gwyrdd. Mae diffyg rhan y gwledydd datganoledig yn y camau hyn o gofio eu bod yn gyfrifol am ofal iechyd a gallent arwain at gamddealltwriaeth³¹.
38. Yng Nghymru, mae statws cyngor JCVI yn un cynghorol ac roedd angen cytundeb Gweinidogol i'w roi ar waith. Roedd aelod cyfetholedig o Gymru ar gael i gynnig arbenigedd ar weithredu o raglenni imiwneiddio³² ond nid oedd ganddi hawliau pleidleisio. Yn y pen draw, roedd yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr at y drafodaeth a oedd yn galluogi ystyried anghenion a safbwyntiau system frechu Cymru wrth wneud penderfyniadau. Yn ystod rhan gynnar y cyfnod

³¹ Grieve 28 Ionawr 2025 25/12-25 26/1-5.

³² Anne McGowan, Nyrs Ymgynghorol, Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- perthnasol, roedd pryderon bod trafodaethau mewn cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddosbarthu cyngor yn Lloegr gan mwyaf. Mae cyfarfodydd wedi esblygu ers hynny i gynnwys ceisiadau i gynrychiolwyr Cymru gyflwyno barn sy'n canolbwyntio ar Gymru i'r Pwyllgor er mwyn hysbysu'r drafodaeth.
39. Rhoddwyd cyngor MHRA ar ddiogelwch y brechlynnau i'r JCVI a wnaeth hysbysu ei gyngor. Prif Swyddog Fferyllo Cymru oedd y prif gyswllt â'r MHRA ac aeth i gyfarfod ym mis Tachwedd 2020 ond nid oedd aelod o Gymru yno.³³
40. Mae datganiad tyst Dr Richardson yn nodi rhai awgrymiadau o ran sut y gallai rhan Llywodraeth Cymru fod wedi'i hoptimeiddio drwy roi mynediad uniongyrchol at ganfyddiadau'r ymchwil iddi a oedd yn sail i gyngor MHRA i'r JCVI. Byddai hyn wedi rhoi dealltwriaeth well o'r broses gwneud penderfyniadau a dull mwy cadarn o gwestiynu'r cyngor³⁴.
41. Yn ogystal, cyfeiriodd tystiolaeth lafar Dr Richardson at y mater hwn: *"I do believe that each of the devolved nations needs a voting member [on the JCVI] and I do believe that in the scientific subgroups that look at the research evidence in particular, and also particularly perhaps for the MHRA, if I may say so, that it would provide strength and also help understanding back at base if the devolved nations had representatives"*³⁵.
42. Cyflwynir y ddadl y dylai'r Ymchwiliad adolygu llywodraethiant y JCVI er mwyn ystyried datganoli ac ystyried mwy o fynediad at y data gwaelodol gan yr MHRA i wyddonwyr a chlinigwyr o'r llywodraethau datganoledig.

Casgliadau ac Argymhellion

43. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr ymchwiliad i ddod i'r casgliad y bu dosbarthiad y brechlynnau yng Nghymru yn llwyddiant, ar y cyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y canlynol:
- meithrin cysylltiadau hyd yn oed cryfach gyda grwpiau sydd o dan anfantais a/neu yn ddrwgdybus o awdurdodau cyhoeddus yn ystod 'cyfnod o heddwch' o ran cynnal rhaglenni brechu rheolaidd sydd hefyd ar gael yn rhwydd ar adegau o argyfwng;

³³ INQ000474566, para. 15.

³⁴ INQ000501330, para. 190.

³⁵ Richardson 28 Ionawr 2025 74/1-7.

- b. sicrhau bod model cymdeithasol o anabledd yn parhau i gael ei ymgorffori yn arferion Llywodraeth Cymru ac yn parhau i fod yn rhan o arferion da mewn adegau o argyfwng;
 - c. buddsoddi i wella'r seilwaith brechu digidol a chofnodion er mwyn gwella casglu data ac ansawdd y data er mwyn gallu mynd i'r afael â'r niferoedd sy'n cael eu brechu ac anghydraddoldebau yn effeithiol.
44. Mae'r gwaith parhaus hwn wedi cyfrannu at y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 25 Hydref 2022.³⁶ Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar wella'r nifer sy'n derbyn y brechlynnau ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau a chanddynt ddiffyg ymddiriedaeth mewn gofal iechyd cyhoeddus a'r llywodraeth. Ei nod yw gwneud pethau'n haws i bobl wybod pa frechlynnau maent yn gymwys i'w cael, a sut maent yn eu cael, gan ddefnyddio cofnodion brechu digidol. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol gael strategaeth brechu teg a rhaglen waith sy'n cymhwyso egwyddorion y fframwaith. Er mwyn sicrhau y caiff brechu teg ei ystyried ar bob cam ac er mwyn diogelu'r egwyddor *"nad oes neb yn cael ei adael ar ôl"*, mae'r Pwyllgor Brechu Teg wedi'i drawsnewid i'r trefniadau llywodraethu newydd ac mae ganddo gylch gwaith ehangach ar gyfer yr holl raglenni brechu.³⁷ Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd tystiolaeth ac argymhellion yr Ymchwiliad yn hysbysu'r gwaith hwnnw.
45. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr Ymchwiliad i argymhell rhoi ystyriaeth i gytuno ar asesiad seiliedig ar anghenion i ddyrannu brechlynnau ar draws y pedair gwlad yn hytrach na gorfod troi at fformiwla Barnett, sy'n gyfarwydd, ond yn rhy arwynebol.
46. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr Ymchwiliad i argymhell y dylid newid llywodraethiant JCVI i adlewyrchu setliad ôl-ddatganoli³⁸ a chaniatáu i wyddonwyr a chlinigwyr o'r gwledydd datganoledig edrych ar y data gwaelodol sy'n cael eu hystyried gan yr MHRA.

Dyddiedig 14 Chwefror 2025

³⁶ INQ000401577.

³⁷ Morgan (datganiad M4), paragraffau 246-247: INQ000474509, INQ000489440, INQ000489441.

³⁸ Grieve 28 Ionawr 2025 27/18-19 .